Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| Cyfarfod: | Bwrdd Plismona |
|---|---|
| Lleoliad: | MS Teams |
| Dyddiad: | 23 Ionawr 2025 |
| Amser: | 10am-12pm |

| | |
|---|---|
| **Yr Aelodau:** | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn (CHTh)<br>Prif Gwnstabl, Dr Richard Lewis (PG)<br>Prif Weithredwr SCHTh, Carys Morgans (PW) |
| **Hefyd yn bresennol:** | Uwch Swyddog Cyfrifol – Tîm Adolygiad yr Heddlu, Gareth Scanlon (GSc)*<br>Swyddog Staff, yr Arolygydd Gemma Starkey (GS)<br>Cymorth Gweithredol SCHTh, Sophie Morgan (SM) |
| **Ymddiheuriadau:** | Prif Swyddog Cyllid SCHTh, Beverley Peatling (PSC SCHTh)<br>Prif Swyddog Cyllid Dros Dro SCHTh, Nicola Davies (PSCDD)<br>Cyfarwyddwr Cyllid, Edwin Harries (CC) |

*Roedd yr Uwch Swyddog Cyfrifol – Tîm Adolygiad yr Heddlu, Gareth Scanlon (GSc) yn bresennol ar gyfer eitem 5c ar yr agenda, Model plismona gweithredol uwch newydd – canlyniad yr ymgynghoriad a'r camau nesaf ac eitem 5d ar yr agenda, Diweddariad ar Adolygiad yr Heddlu.

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y PSC, y PSCDD a'r CC. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

## 2. Diweddariad ar gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

| Cam gweithredu rhif | Crynodeb o'r cam gweithredu | Diweddariad |
|---|---|---|
| PB 049 | Y Dirprwy Brif Gwnstabl (DBG) i drafod â Chyfathrebu Corfforaethol ynghylch drafftio straeon newyddion cadarnhaol ynghylch gwaith ymgyrch Ivydene ac ymgyrch Vigilant. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Rhoddwyd rhagor o wybodaeth am sylw'r cyfryngau i ymgyrchoedd Ivydene a Vigilant |

| | | |
|---|---|---|
| PB 050 | Cynllun cyfathrebu a datganiad drafft ynglŷn â gwerthu gorsafoedd heddlu, y cydweithio â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a rhentu mannau eiddo yng Nghrucywel, y Gelli Gandryll, Llanfyllin, Arberth, Llandeilo a Llanymddyfri i'w rhannu â'r bwrdd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona ym mis Ionawr 2025. | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Darparwyd rhagor o wybodaeth gan gynnwys datganiad drafft i'r wasg, strategaeth gyfathrebu a chynllun trosglwyddo. |
| PB 051 | Yr hunanasesiad sy'n ystyriol o drawma wedi'i gwblhau gan yr heddlu i'w gyflwyno i'r Bwrdd Plismona ym mis Mawrth 2025. | **Ar y gweill**<br>I'w gyflwyno i'r Bwrdd Plismona ym mis Mawrth 2025. |
| PB 052 | Manylion cyswllt uwcharolygwyr ar lefel unedau rheoli sylfaenol o fewn ardal yr heddlu i'w rhannu â phrif weithredwyr yr awdurdodau lleol. | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae'r Swyddog Staff wedi rhannu manylion cyswllt uwcharolygwyr â phrif weithredwyr awdurdodau lleol. |
| PB 053 | Y DBG i godi gyda'r Cyfarwyddwr Pobl a Datblygiad Sefydliadol mater darparu amserlen rhannu canlyniadau Buddsoddwyr mewn Pobl â'r heddlu. | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae canlyniadau Buddsoddwyr mewn Pobl yn cael eu rhannu yn sioeau teithiol y prif swyddogion a bydd cyfathrebiadau a phosteri pellach yn cael eu dosbarthu ar ôl y sioe deithiol. |
| PB 054 | Yr wybodaeth ddiweddaraf am y model gweithredu uwch i'w gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd Plismona ym mis Ionawr 2025 | **Wedi'i gwblhau**<br>Ar yr agenda fel eitem 5c. |

## 3. Pwnc Ffocws:

### a) Cynllun cyflawni strategol

Ystyriodd y bwrdd gynllun cyflawni strategol yr heddlu. Mae Cynllun Cyflawni Strategol yr Heddlu 2025-2029 yn amlinellu sut y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn darparu gwasanaeth plismona effeithiol i'w gymunedau,

gan ganolbwyntio ar eu blaenoriaethau, ac ar y blaenoriaethau hynny yn y cynllun heddlu a throseddu.
Eglurodd y PG fod y cynllun yn tynnu ynghyd sut mae'r heddlu'n gweithio i gadw ardal Dyfed-Powys yn ddiogel yn barhaus. Mae'n gosod map trywydd sy'n mynd i'r afael â heriau troseddu sy'n datblygu ac sy'n dod i'r amlwg, gan ddiogelu ymddiriedaeth y cyhoedd, gwella diogelwch cymunedol, a hyrwyddo arloesedd tra'n canolbwyntio ar ddull sy'n edrych ar y sefyllfa o safbwynt y dioddefydd. Mae troseddau a gofynion wedi cynyddu o ran maint a chymhlethdod. Mae pwysau ariannol yn golygu bod yn rhaid i'r heddlu fod mor effeithlon a chynhyrchiol â phosibl. I gefnogi hyn, bydd yr heddlu yn canolbwyntio ar sicrhau eu bod yn alinio eu hadnoddau â'r angen mwyaf trwy wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, cydweithio â phartneriaid, croesawu arloesedd, a gwneud y defnydd gorau o dechnoleg.

Mae'r cynllun cyflawni strategol yn adlewyrchu blaenoriaethau'r heddlu a'u hymrwymiad i'w cymunedau a bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol fel rhan o'r cylch cynllunio strategol a sicrwydd. Dywedodd y PG ei bod yn ofynnol i bob adran o fewn yr heddlu gael eu cynllun cyflawni adrannol eu hunain yn dangos sut y byddant yn cyflawni yn erbyn y cynllun cyflawni strategol. Roedd y CHTh yn canmol y ddogfen a'r dull a ddefnyddiwyd.

**Cam gweithredu: Cyflwyno cynlluniau cyflawni adrannol i gyfarfod nesaf y bwrdd plismona ym mis Mawrth 2025.**

**b) Adroddiad cyflwr plismona blynyddol Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi 2024**

Trafododd y bwrdd y llythyr gan Syr Andy Cooke ynghylch cwblhau arolwg ar gyfer adroddiad blynyddol cyflwr plismona 2024 Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. Gofynnodd y CHTh i'r heddlu ddarparu'r wybodaeth i lywio'r ymateb i'r arolwg erbyn 29 Ionawr 2025 er mwyn galluogi SCHTh i gyflwyno'r ymateb erbyn y dyddiad cau.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i ddarparu gwybodaeth i lywio'r ymateb i'r arolwg erbyn 29 Ionawr 2025 er mwyn galluogi SCHTh i gyflwyno'r ymateb erbyn y dyddiad cau.**

**4. Cwestiynau i'r Prif Gwnstabl**

**a) Deallaf fod yr heddlu yn cynnal ymgyrch recriwtio cwnstabliaid yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror. Pa gamau penodol y mae'r heddlu yn eu cymryd i sicrhau bod ei arferion recriwtio yn denu ymgeiswyr o grwpiau heb**

**gynrychiolaeth ddigonol, a sut mae demograffeg y gweithlu presennol yn cymharu â'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu?**

Dywedodd y PG fod Swyddog Gweithredu Cadarnhaol yr heddlu yn gweithio o fewn y Tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg. Mae'n gweithio'n agos gyda'r timau recriwtio a dysgu a datblygu, a gweithgorau cynrychioliadol i gynnig cymorth gweithredu cadarnhaol i ddarpar ymgeiswyr, ymgeiswyr recriwtio presennol a swyddogion a staff presennol.
Mae'r Swyddog Gweithredu Cadarnhaol a'r Swyddog Denu Talent newydd wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau gyrfaoedd yn y cymunedau yn y cyfnod cyn yr ymgyrch recriwtio cwnstabliaid, gan gynnwys:

- Digwyddiad gyda SCHTh yng Ngheredigion fel rhan o Fis Hanes Pobl Ddu, a drefnwyd gan Race Council Cymru
- Ffeiriau gyrfa cymunedol yn Sir Gaerfyrddin – Llanelli a Chaerfyrddin
- Ffeiriau swyddi Gwaith yn yr Arfaeth yn Sir Benfro – Penfro, Aberdaugleddau a Hwlffordd
- Digwyddiadau gyrfaoedd a gynhaliwyd gan ysgolion, colegau a phrifysgolion ledled ardal yr heddlu

Yn ogystal, mae'r heddlu yn sicrhau presenoldeb mewn digwyddiadau ar raddfa fawr yn ardal yr heddlu megis yr Eisteddfod, sioeau sirol a Sioe Frenhinol Cymru. Rhoddir cyfle i unrhyw unigolion cymwys sy'n mynychu digwyddiadau ymgysylltu â'r Swyddog Gweithredu Cadarnhaol, sy'n sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi'n briodol.

Mae'r heddlu wedi cynnal digwyddiadau ym mhob ardal o'r heddlu i roi gwybodaeth lawn a manwl i ddarpar ymgeiswyr am y rôl, y broses ymgeisio a'r hyfforddiant a ddarperir, yn ogystal ag i hyrwyddo amrywiaeth yr heddlu. Yn y digwyddiadau hyn mae'r heddlu yn esbonio beth mae gweithredu cadarnhaol yn ei olygu a sut y gall yr heddlu gefnogi unigolion i sicrhau nad yw ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol o dan anfantais.

Mae'r broses recriwtio cwnstabliaid ar-lein yn galluogi unigolion cymwys i nodi bod angen cymorth gweithredu cadarnhaol arnynt ar gamau cynharaf y broses i sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth.
Trefnir sesiynau ymgyfarwyddo cyn unrhyw ymgyrch i roi cymorth i ymgeiswyr sydd wedi gofyn am weithredu cadarnhaol h.y. cyn cwblhau'r broses ymgeisio, yn y ganolfan asesu ar-lein a'r cyfweliad terfynol/yr asesiad ar sail rôl. Mae tudalen we gyrfaoedd swyddogion yr heddlu yn cyfeirio unigolion at y Swyddog Gweithredu Cadarnhaol ac yn cysylltu â thudalen we gweithredu cadarnhaol i ddarparu gwybodaeth lawn.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Heddlu • Police DYFED-POWYS

## 5. I'w nodi

### a) Diweddariad y Prif Gwnstabl

Rhoddwyd diweddariad gan y Prif Gwnstabl i'r bwrdd ynghylch digwyddiadau a gweithrediadau a oedd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf. Mae'r adroddiad yn cynnwys diweddariadau ar waith heddlu da, yn ogystal â diweddariadau gweithredol a sefydliadol sylweddol. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Ymgyrch Vigilant lle'r oedd swyddogion hyfforddedig arbenigol o Sir Gaerfyrddin wedi'u gwisgo mewn dillad plaen yn gweithredu fel gwylwyr yng Nghaerfyrddin, ac yn nodi pobl yr oedd yn ymddangos eu bod yn peri risg i eraill drwy arddangos ymddygiad rhywiol helwriaethol. Roedd y pryderon hyn yn cael eu cyfleu i swyddogion mewn lifrai oedd yn ymateb trwy darfu ar ymddygiad troseddol posibl cyn iddo ddigwydd.

Rhoddodd y PG ddiweddariad ac adborth cadarnhaol ynghylch sioe deithiol prif swyddogion.

Dywedodd y PG fod Richard Clarke, Cyfarwyddwr Cyffredinol Strydoedd Saffach yn bwriadu ymweld ag ardal yr heddlu a bod trefniadau'n parhau gyda'r heddlu.  Dywedodd y PG hefyd ei fod wedi anfon llythyr at y gweinidog plismona yn ei gwahodd i ymweld ag ardal yr heddlu.

### b) Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Rhoddodd y CHTh ddiweddariad byr ar ei weithgareddau a chyfarfodydd a gynhaliwyd ers y cyfarfod diwethaf, gan gynnwys mynychu cyfarfod aelodau Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru gyda'r Rhwydwaith Gwrth-Hiliaeth Ymgysylltu â'r Gymuned, cyfarfodydd is-grŵp cyllid y Panel Heddlu a Throseddu a chyfarfod chwarterol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

### c) Model plismona gweithredol uwch newydd – canlyniad yr ymgynghoriad a'r camau nesaf

Rhoddodd yr Uwch Swyddog Cyfrifol, Tîm Adolygiad yr Heddlu, Gareth Scanlon (GSc) gyflwyniad i'r bwrdd ar y model plismona gweithredol uwch newydd a chanlyniad yr ymgynghoriad a'r camau nesaf. Mae hon yn ffrwd waith yn Rhaglen Adolygu'r Heddlu sy'n ceisio ailalinio portffolios uwch arweinwyr ac alinio gweithredol i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ac ar yr un pryd lleihau achosion o orgyffwrdd wrth reoli a llywodraethu. Roedd elfen o'r ffrwd waith hon yn ystyried newid yr uwch strwythur plismona gweithredol trwy ddisodli'r model ardal blismona leol a

defnyddio'r model uned reoli sylfaenol. Roedd y ffrwd waith hon yn amserol o ystyried bod Cadeirydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, y Prif Gwnstabl Gavin Stephens wedi dosbarthu papur ym mis Mai 2024 yn tynnu sylw at waith ymchwil parhaus sy'n archwilio modelau gweithredu heddlu lleol (sy'n cael ei gynnal gan y Police Foundation). Roedd model uned reoli sylfaenol yn weithredol o fewn Heddlu Dyfed-Powys tan 2012 ac fe ddaeth i ben oherwydd ad-drefnu sylweddol rolau uwch swyddogion yr heddlu (i arbed costau) yn ystod ymateb y sefydliad i'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (CSR1) o dan Ymgyrch Sage. Ers hynny, mae'r heddlu wedi symud i fodel ardal blismona leol.

Rhoddodd GSc drosolwg o weithgareddau ymgysylltu a gyflawnwyd gyda'r heddlu a chyflwynwyd y model plismona gweithredol uwch newydd i ddechrau i uwch arweinwyr yng nghyfarfod bwrdd Rhaglen Adolygu'r Heddlu ar 11 Ebrill 2024. Ar 9 Medi 2024 cynhaliwyd diwrnod cwrdd i ffwrdd i uwch arweinwyr. Rhannwyd chwe opsiwn o ran newid i unedau rheoli sylfaenol. Roedd yr opsiynau a gyflwynwyd yn destun gwaith grŵp lle rhoddwyd y dasg i'r rhai a oedd yn bresennol i werthuso manteision ac anfanteision pob model. Hwyluswyd y digwyddiad gan ymarferwyr gwelliant parhaus a gofnododd adborth pob un o'r grwpiau a'i gyflwyno i uwch noddwyr ar 30 Medi i'w drafod ymhellach.

Roedd hyn yn galluogi datblygu cynnig a fu'n destun ymgynghoriad â holl swyddogion yr heddlu ar radd prif arolygydd ac uwch a phenaethiaid adrannau staff yr heddlu rhwng 18 Tachwedd 2024 a 2 Rhagfyr 2024. Darparwyd adborth pellach yn ystod y broses ymgynghori a oedd yn destun gwaith pellach. Arweiniodd hyn at gytuno ar gynnig terfynol gan uwch noddwyr ar 6 Ionawr 2025 a'i gadarnhau gan y Prif Gwnstabl ar 7 Ionawr 2025.

Mae'r rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y strwythur y cytunwyd arno wedi cael sesiwn friffio un-i-un gyda'u rheolwr llinell cyn cyfathrebu'r cynnig yn ehangach i'r sefydliad.

Mae'n anochel y bydd rhywfaint o symud cyflogeion sy'n gymesur â diddymu a chreu rolau, a bydd cyfathrebu ar y rhain cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Bydd y PGC yn ymgynghori â'r prif uwcharolygwyr i gytuno ar ailddosbarthu portffolios ac ar ddull cyson o ran alinio'r llwyth gwaith a chyfarfodydd a fynychir gan brif arolygwyr y partneriaethau mewn lifrai. Bydd hyn yn cael ei gwblhau a'i gyfathrebu cyn ei roi ar waith. Bydd cyrsiau rheoli prosiectau lefel sylfaen yn cael eu dyrannu i'r rhai mewn rolau canolog. Bydd yr uwch strwythur plismona gweithredol newydd yn mynd yn fyw ar 3 Mawrth 2025. Bydd gwerthusiad yn erbyn budd yn dechrau ar

ôl yr arolygiad nesaf ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu (PEEL).

Gofynnodd y CHTh i'r PG sut yr oedd yn gweld y model newydd yn gwella'r ddarpariaeth weithredol ar draws yr heddlu. Dywedodd y PG y bydd y model newydd yn rhoi perchnogaeth lwyr i reolwyr yr unedau rheoli sylfaenol ac y byddant yn gallu cael eu dwyn i gyfrif yn fwy trylwyr o ran perfformiad.

**d) Diweddariad Adolygiad yr Heddlu**

Rhoddodd GSc ddiweddariad i'r bwrdd ynghylch Adolygiad yr Heddlu. Defnyddiwyd yr algorithm EBIT cyntaf ar 8 Hydref 2024. Cynhaliwyd dadansoddiad o'r ffordd y cafodd ei weithredu yn y cyfnod rhwng 8 Hydref a 31 Rhagfyr 2024, a oedd yn dangos cyflawni effaith sylweddol o ganlyniad i gyflwyno EBIT. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflawni algorithm dau a thri ar gyfer troseddau difrod troseddol a siop-ladrad yn eu tro. Ar 16 Rhagfyr 2024, penderfynodd uwch noddwyr y bydd y pedwerydd algorithm yn cael ei ddatblygu ar gyfer dod i gyswllt â throseddau aflonyddu a chyfathrebu maleisus. Mae gwaith yn cael ei gydlynu ar hyn o bryd gyda chanolfan plismona seiliedig ar dystiolaeth Caergrawnt, TGCh Heddlu Dyfed-Powys, Motorola (Pronto) a Chydweithrediad Niche Arfordir y Gorllewin, i alinio a chyflymu datblygiad er mwyn galluogi'r tri algorithm i gael eu cyflawni ar yr un pryd o fewn y misoedd nesaf. Mae cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2025 wedi nodi y bydd gwaith yn dechrau ddiwedd mis Ionawr i gyflwyno'r tri algorithm sy'n weddill ar yr un pryd.

Gofynnodd y CHTh pa adborth a dderbyniwyd gan ddioddefwyr ynghylch EBIT ac a oedd unrhyw adborth anffafriol wedi'i dderbyn gan SCHTh.

**Cam gweithredu: Y Prif Weithredwr i gysylltu â thîm sicrwydd SCHTh ynghylch unrhyw adborth neu sylwadau negyddol ynghylch EBIT.**

**Cam gweithredu: Sesiwn friffio i'w threfnu ar gyfer y CHTh ynghylch EBIT a chyflawni algorithm dau a thri ar gyfer troseddau difrod troseddol a siop-ladrad.**

Cyflwynwyd cynigion cychwynnol ar gyfer patrwm rota ar gyfer gwasanaeth ymateb yr heddlu a'r ddalfa i uwch noddwyr ddydd Llun, 18

Tachwedd 2024 a dechreuodd yr ymgynghoriad â’r partïon yr effeithir arnynt ar 2 Rhagfyr 2024 a daeth i ben ar 16 Rhagfyr 2024. Cymeradwywyd cynnig terfynol (na chafodd ei newid gan yr ymgynghoriad) i gyflwyno’r rota a dreialwyd ym Mhowys i Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro gan uwch noddwyr ar 6 Ionawr 2025 ac fe’i cadarnhawyd gan y PG ar 7 Ionawr 2025. Bydd y newid hwn yn cyflawni nifer o welliannau gweithredol a rhai o ran lles a llesiant, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) diwrnodau gorffwys ychwanegol, hyd shifftiau ac amseroedd cychwyn cyson, cyfnodau trosglwyddo gwell ac alinio gwell o ran adnoddau a galw.

Mae tîm y ffrwd waith bellach yn gweithio’n agos gyda Gwasanaethau Pobl i roi’r newid hwn ar waith a fydd, yn dilyn cyfnodau rhybudd gorfodol, yn mynd yn fyw yn gynnar ym mis Mai 2025 cyn cyfnod cylchol yr haf pan fydd galw mawr.

Bydd cynigion o ran patrwm rota ar gyfer yr adran ymchwilio i droseddau a’r uned ymchwilio leol yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â chynigion ehangach ar gyfer ffrwd waith y dull ymchwilio ar 29 Ionawr 2025. Mae dyhead i alinio patrymau sifft yr adran ymchwilio i droseddau a gwasanaeth ymateb yr heddlu mor agos â phosibl, ac o’r herwydd, mae hyn wedi gofyn am amser ystyried ychwanegol o ystyried y rhyngddibyniaethau clir rhwng datblygu rotâu i ategu unrhyw newid yn ein dull o reoli ymchwiliadau (ac i’r gwrthwyneb).

Bydd ffrwd waith yr Uned Rheoli Adnoddau yn adolygu’r prosesau sy’n ymwneud â chynllunio rotâu, dyrannu, rheoli adnoddau o ddydd i ddydd, gwyliau blynyddol, cyflenwi adnoddau ar gyfer digwyddiadau dirybudd a darparu hyfforddiant wedi’i amserlennu. Cyflwynwyd cynigion cychwynnol i ehangu cylch gwaith a chyflenwi adnoddau’r Uned Rheoli Adnoddau i’r uwch noddwyr ar 18 Tachwedd 2024. Yr hyn sy’n allweddol i gyflawni budd llawn y ffrwd waith yw arbedion ariannol sy’n seiliedig ar lwyddiant argymhelliad i ddiwygio dull gweithio gwyliau banc ar gyfer swyddogion heddlu.

Er mwyn profi cysyniad yr arbedion, bydd y diwygiad gwyliau banc yn cael ei gyfleu’n fuan drwy gyfrwng neges gyfathrebu dros ardal yr heddlu’n grwn, a fydd yn ategu diwygiad proses o fewn yr Uned Rheoli Adnoddau i wireddu’r newid. Os bydd tua 25% o gwnstabliaid a rhingylliaid yr heddlu yn derbyn y broses, bydd hyn yn golygu y gellir ymgynghori â’r rhai y mae’r cynigion yn effeithio arnynt ac y gellir bwrw ymlaen â’r ffrwd waith yn llawn.

Dechreuodd y gwaith o roi’r model gweithredu newydd mewn grym yng nghanolfan gyfathrebu’r heddlu ar 1 Medi 2024. Daeth cam dau yr hyfforddiant hollgymhwysedd i ben yn ddiweddar gyda cham tri yn

dechrau ar 27 Ionawr 2025. Rhagwelir defnydd llawn o'r model hollgymhwysedd erbyn mis Mawrth 2026. O ganlyniad bydd tua 80 o gyflogeion wedi'u hyfforddi'n llawn ym mhob rôl o fewn canolfan gyfathrebu'r heddlu.  Mae proses recriwtio bellach wedi cychwyn i lenwi wyth swydd wag cyfwerth ag amser llawn ac fe'i hategir gan strategaeth gyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau ymgysylltu â rheolwyr canolfan gyfathrebu'r heddlu ar gyfer ymgeiswyr posibl ym mhencadlys yr heddlu.

Cafodd cam 1 datrysiad rheoli cysylltiadau (CMS) meddalwedd ystafelloedd rheoli Motorola ar gyfer teleffoni a radios ei gyflenwi'n llwyddiannus ar 12 Tachwedd 2024. Disodlwyd hen systemau oedd wedi dyddio gan system CMS modern sy'n addas i ddiwallu anghenion rheoli cysylltiadau yn y dyfodol. Mae hefyd wedi galluogi dileu risg gorfforaethol yn ymwneud â methiant posibl yr hen systemau hyn (a'r effaith ganlyniadol ar ddarparu gwasanaethau).
Mae cynllunio ar gyfer cyflwyno cam 2 sy'n cwmpasu'r Rheolwr Perthynas â Chwsmeriaid yn mynd rhagddo.

## 6. Unrhyw Fater Arall

### a) Ymateb y PG i adolygiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi o ymateb yr heddlu i anhrefn cyhoeddus ym mis Awst 2024

Roedd y CHTh yn ddiolchgar i'r PG am yr ymateb i'r adroddiad a dywedodd y byddai ymateb y CHTh yn cael ei rannu â'r heddlu a'r ymateb yn cael ei gyhoeddi.

### b) Y Pwyllgor Dethol: cylch gorchwyl yr ymchwiliad cyntaf

Gofynnodd y CHTh am adborth gan y prif swyddogion am ddull arfaethedig y pwyllgor dethol.

Eglurodd y Prif Weithredwr, yn dilyn etholiadau comisiynwyr yr heddlu a throseddu ym mis Mai 2024, y penderfynwyd y byddai'n amser da i adolygu'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith i gefnogi'r CHTh i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol. Defnyddir cyfarfod ffurfiol o'r pwyllgor dethol i ganolbwyntio'n gyhoeddus ar feysydd penodol sy'n peri pryder, gan gynnwys partneriaid, darparwyr a rhanddeiliaid allweddol i ddarparu tystiolaeth a gwybodaeth sy'n cyfrannu at y broses graffu ac i ddangos eu bod yn darparu gwasanaethau cyflenwol. Byddai partneriaid allweddol yn cael y cyfle i gyflwyno tystiolaeth i'r fforwm ac adrodd ar eu meysydd atebolrwydd eu hunain. Yn ogystal, gallai'r rhai â phrofiad bywyd roi eu mewnbwn i gynorthwyo dealltwriaeth y CHTh.

Byddent yn ddarnau gwahanol o waith gydag amserlen adolygu glir. Byddai hyn yn gyfle i'r comisiynydd ystyried sut y gall gynorthwyo i ddylanwadu a llywio gwelliannau i wasanaethau drwy ganolbwyntio ar faes penodol o bryder. Byddai hefyd yn cael ei ddefnyddio fel fforwm i lywio penderfyniadau buddsoddi'r comisiynydd.

Cynigiwyd bod ymchwiliad cyntaf y pwyllgor dethol yn canolbwyntio ar ofynion gwasanaethau ymyrryd ac atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a gwasanaethau ymgysylltu ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed.

**Cam gweithredu: Adborth gan brif swyddogion ynghylch y pwyllgor dethol: Cylch gorchwyl yr ymchwiliad cyntaf i'w ddarparu i SCHTh.**

**c) Arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant: Cyngor Sir Penfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Heddlu Dyfed-Powys – Ionawr 2025**

Nododd y bwrdd y llythyr ynglŷn â'r arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant: Cyngor Sir Penfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Heddlu Dyfed-Powys

Dywedodd y PG fod yr heddlu wedi hwyluso rhannu gwybodaeth ynghylch argymhellion yn dilyn yr arolygiad ym Mhowys y flwyddyn flaenorol a'r arolygiad ar gyfer Sir Benfro eleni.

**d) Gangiau rhwydo camfanteisio'n rhywiol ar blant**

Soniodd y CHTh ei fod wedi siarad yn ddiweddar â Phrif Weinidog Cymru ar y cyd â chomisiynwyr eraill Cymru mewn perthynas ag ymateb i alwad yn Lloegr am ymchwiliad i Gymru a Lloegr mewn perthynas â gangiau rhwydo camfanteisio ar blant. Gofynnodd y CHTh a oedd problemau hysbys gyda gangiau rhwydo yn ardal yr heddlu a gofynnodd pa sicrwydd y gallai'r PG ei roi.

Dywedodd y PG fod yr heddlu o ddifrif ynglŷn â lles plant a bod ganddynt brosesau diffiniedig ar waith i atal cam-drin ac i gefnogi plant agored i niwed. Nid yw'r heddlu yn llaesu dwylo ar draws ardal yr heddlu ac mae'n parhau i weithio gyda phartneriaid i nodi materion o'r natur hon ac i wneud diogelu plant yn flaenoriaeth i bawb.  Er na ellir rhoi sicrwydd

pendant mewn unrhyw faterion yn ymwneud â phlismona, cadarnhaodd y PG fod yr heddlu yn effro i'r perygl sy'n deillio o 'gangiau rhwydo'.

**e) Ariannu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**

Cytunwyd bod angen i'r CHTh a'r PG drafod materion ar fyrder gyda phrif weithredwyr awdurdodau lleol, yn benodol y pwysau ar y gyllideb a rennir yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a'r angen i weithredu'r cynllun i symud cyfraniadau grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaeth Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig i ffrydiau cyllideb craidd awdurdodau lleol.

**Cam gweithredu: Y CHTh i anfon llythyr at brif weithredwyr y pedwar awdurdod lleol yn ardal yr heddlu ynghylch cyd-ariannu blaenoriaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**

| Cam gweithredu rhif | Crynodeb o'r camau gweithredu o gyfarfod 23 Ionawr 2025 | I'w symud ymlaen gan |
|---|---|---|
| PB 055 | Cynlluniau cyflawni adrannol i gael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona ym mis Mawrth 2025. | Yr heddlu |
| PB 056 | Yr heddlu i ddarparu gwybodaeth i lywio'r ymateb i'r arolwg erbyn 29 Ionawr 2025 er mwyn galluogi SCHTh i gyflwyno'r ymateb erbyn y dyddiad cau. | Yr heddlu |
| PB 057 | Y Prif Weithredwr i gysylltu â thîm sicrwydd SCHTh ynghylch unrhyw adborth neu sylwadau negyddol ynghylch EBIT. | SCHTH |
| PB 058 | Sesiwn friffio i'w threfnu ar gyfer y CHTh ynghylch EBIT a chyflwyno algorithm dau a thri ar gyfer troseddau difrod troseddol a siop-ladrad. | SCHTH |
| PB 059 | Adborth gan brif swyddogion ar y pwyllgor dethol: Cylch gorchwyl yr ymchwiliad cyntaf i'w ddarparu i SCHTh. | Yr heddlu |
| PB 060 | Y CHTh i anfon llythyr at brif weithredwyr y pedwar awdurdod lleol yn ardal yr heddlu ynghylch cyd-ariannu blaenoriaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. | SCHTH |

DIWEDD